**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 31 Ionawr 2001 |
| Amser: | 9.00 a.m. |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Teitl: SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD YN Y DYFODOL**

**Diben**

1.Gwahodd aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd i ystyried sut y gallai swyddogaeth y Pwyllgor newid yn y dyfodol.

**Cefndir**

2.Yn dilyn trafodaeth ar swyddogaeth y Pwyllgor yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd a gynhaliwyd ym mis Mehefin, cyflwynwyd papurau gan Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn amlinellu barn y pleidiau ar sut y gallai'r Pwyllgor ddatblygu ei rôl yn ddefnyddiol (amgaeir y papurau yn Atodiad A a B). Canlyniad rhai o'r pryderon a fynegwyd gan aelodau nad oedd materion Ewropeaidd, a deddfwriaeth Ewropeaidd yn arbennig, yn cael y sylw y maent yn deilwng ohono, oedd hyn.

3.Cafwyd trafodaeth fer am y papurau hyn yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 30 Tachwedd. Penderfynwyd y dylai swyddogion ddarparu papur yn amlinellu'r meysydd posibl y gallai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol.

**Swyddogaeth Wreiddiol y Pwyllgor**

4.Gellir rhannu'r swyddogaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn y rheolau sefydlog i'r categorïau canlynol:

- Adolygu perthynas y Cynulliad â'r Undeb Ewropeaidd (Rheol Sefydlog 15.1 (i) a (ii))
- Adolygu perthynas y Cynulliad ag UKRep a Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Rheol Sefydlog 15.1 (ii))
- Monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau polisïau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru (Rheol Sefydlog 15.2)
- Adolygu dulliau'r Cynulliad o ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd (Rheol

Sefydlog 15.2)
- Tynnu sylw pwyllgorau pwnc at faterion penodol yr Undeb Ewropeaidd (Rheol Sefydlog 15.3)
- Argymell sut y dylai'r Cynulliad ymateb i weithgarwch yr Undeb Ewropeaidd sy'n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc (Rheol Sefydlog 15.3)

5.Ar y dechrau bu'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar berthynas Cymru ag Ewrop ac felly'n sicrhau bod gweithdrefnau digonol i'w cael lle gellir mynd ar drywydd buddiannau Cymru o fewn fforymau Ewropeaidd. Yn unol â hynny, mae'r pwyllgor wedi hybu mentrau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Ewrop, megis sefydlu swyddfa ar gyfer y Cynulliad ym Mrwsel, y Cynulliad yn ymuno â Chanolfan Ewropeaidd Cymru, sefydlu Fforwm Ewropeaidd Cymru a datblygu cysylltiadau ag UKRep. Gyda dulliau o'r fath ar waith bellach, byddai'n rhesymol gofyn sut y gall y pwyllgor fynd ati i hybu buddiannau Cymru ymhellach yn Ewrop.

**Cryfderau'r Pwyllgor**

6.Mae'r Pwyllgor wedi datblygu arbenigedd yng ngweithredoedd a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ac mae hefyd wedi sefydlu cysylltiadau da â chynrychiolwyr Cymru o fewn fforymau Ewropeaidd gan gynnwys swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel, Canolfan Ewropeaidd Cymru, Aelodau Senedd Ewrop, yr Is-adran Materion Ewropeaidd, cynrychiolwyr y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol, cynrychiolwyr Pwyllgor y Rhanbarthau a Chynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. Felly, gall y Pwyllgor ddefnyddio ystod o gynghorwyr arbenigol a all roi gwybodaeth am yr agenda Ewropeaidd helaeth a thynnu sylw at unrhyw faterion a all beri pryder.

7.Mae cyfansoddiad y Pwyllgor o aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol yn meithrin cysylltiad cryf rhyngddo a phobl Cymru a'r prif bleidiau gwleidyddol sy'n cynrychioli buddiannau'r boblogaeth Gymreig. Felly mae'n unigryw fel corff cynrychioliadol yng Nghymru â chysylltiadau cryf â'r Undeb Ewropeaidd.

8.Drwy gynnwys Prif Weinidog Cymru fel Cadeirydd y Pwyllgor, mae hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor drafod materion o bwys yn fanwl gydag Arweinydd y Cynulliad Cenedlaethol ac ennyn ei gefnogaeth i argymhellion y Pwyllgor. Mae hefyd yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cadw mewn cysylltiad â'r Is-adran Materion Ewropeaidd ac yn ennyn ei chefnogaeth.

9.Mae gan y Pwyllgor aelodau hefyd o fwyafrif y pwyllgorau pwnc, sy'n caniatáu i'r pwyllgor gael gwybodaeth gyson am y prif faterion sy'n codi yng Nghymru, ac mae felly'n gallu rhoi gwybodaeth i'r pwyllgorau pwnc perthnasol am oblygiadau strategol y materion sy'n codi yn yr arena Ewropeaidd.

**Cyfyngiadau strwythur presennol y Pwyllgor**

10.Mae strwythur a threfn bresennol y Pwyllgor yn peri rhai cyfyngiadau hanfodol:

- Nid yw ffurf cyfarfodydd y Pwyllgor, lle bo'r llu o gynrychiolwyr Cymru yn Ewrop yn mynychu

ac yn cyfrannu, yn addas ar gyfer datblygu polisïau manwl, sy'n ei gwneud yn ofynnol cymryd tystiolaeth helaeth oddi wrth bobl sy'n arbenigo yn y maes penodol o dan sylw. Yn yr un modd, byddai cysegru amser y Pwyllgor i faterion manwl sy'n ymwneud â pholisïau yn tynnu'r sylw oddi wrth y materion strategol ehangach ac felly'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod yn amlach gyda goblygiadau ar gyfer amserlen holl bwyllgorau'r Cynulliad.

- Mae strwythur Pwyllgor sydd ag un o Weinidogion y Cynulliad yn Gadeirydd yn ei gwneud yn anodd i'r Pwyllgor fod yn asiant effeithiol, neu ymddangos felly, i archwilio ymdriniaeth Cabinet y Cynulliad o faterion Ewropeaidd.
- Mae cyfyngu amser ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn ei gwneud yn anodd i'r Pwyllgor gael gwybod am bob pwnc a godir o fewn fforymau Ewropeaidd neu fonitro ac archwilio'u hallbwn beunyddiol, megis deddfwriaeth a chyfarwyddebau Ewropeaidd.

**Cyfle i ddylanwadu ar Faterion Ewropeaidd**

11.Mae'r cryfderau a nodir uchod yn golygu y gall y Pwyllgor wneud gwaith strategol o ran polisïau a chydlynu sy'n ymwneud â Materion Ewropeaidd. Gallai'r gwaith hwnnw gynnwys:

- monitro'r mecanweithiau y mae Cymru'n eu defnyddio i drafod a hyrwyddo ei buddiannau yn Ewrop a hybu mentrau newydd yn ôl y gofyn;
- cyfrannu at safbwynt Cymreig ar faterion Ewropeaidd strategol;
- rhoi gwybod i'r pwyllgorau pwnc ac Aelodau eraill y Cynulliad am faterion sy'n arbennig o berthnasol i Gymru ar yr agenda Ewropeaidd a sicrhau eu bod yn gwybod am y cyd-destun Ewropeaidd.

12.Mae sawl peth y gallai'r Pwyllgor ei wneud i'w helpu i wneud y gwaith hwn:

**a) Edrych ar Flaenoriaethau Llywyddu, Rhaglenni Gwaith y Comisiwn a chasgliadau'r Cyngor**

Pennir yn y dogfennau hyn y blaenoriaethau ar gyfer datblygu polisïau a mentrau Ewropeaidd. O edrych arnynt, byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am agenda'r UE a byddent yn sylfaen iddo lunio ymatebion strategol i faterion o ddiddordeb neu bryder arbennig.

**b) Ystyried Strategaeth Ddrafft Canolfan Ewropeaidd Cymru ar gyfer Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd wedi'i Ehangu**

Mae Canolfan Ewropeaidd Cymru wedi rhyddhau *Engaging Wales: A Draft Strategy for Wales in the Enlarged European Union* er mwyn ceisio hybu cysylltiadau Cymru â gwledydd canol a dwyrain Ewrop drwy gydweithio a masnachu rhwng y rhanbarthau. Gallai'r Pwyllgor gyfrannu at ymateb y Cynulliad i'r strategaeth ddrafft a hwyluso'r broses o'i rhoi ar waith, i'r graddau y bydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r strategaeth derfynol.

c) Ystyried Papur Gwyn y CE ar Lywodraethu Ewropeaidd, ac ymateb iddo

Ym mis Gorffennaf 2001 bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn rhyddhau Papur Gwyn ar Lywodraethu Ewropeaidd fel rhan o broses ymgynghori eang ar fathau newydd ar lywodraethu yn Ewrop, gan gynnwys goblygiadau'r llywodraethu aml-lefel sy'n datblygu a phwysigrwydd cynyddol llywodraethau ar lefel is-genedlaethol. Gallai'r Pwyllgor gyfrannu at y drafodaeth ar y papur yng Nghymru, a hwyluso'r drafodaeth honno, a helpu'r Cynulliad i gyflwyno safbwynt Cymru ar y pwnc holl bwysig hwn.

d) Llunio cyfraniad i'r Gynhadledd Rynglywodraethol yn 2004

Mae'r Papur Gwyn ar Lywodraethu Ewropeaidd a grybwyllir uchod yn rhan o drafodaeth ddyfnach ac ehangach ar ddatblygiad yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn cyfrannu at Gynhadledd nesaf Cynrychiolwyr Llywodraethau'r Aelod Wladwriaethau yn 2004. Gallai'r Pwyllgor gynnal a hwyluso'r trafodaethau ynghylch sut yr hoffai Cymru i'r Undeb Ewropeaidd ddatblygu a bwydo canlyniadau'r trafodaethau hynny yn ôl i Brif Weinidog Cymru a chysylltiadau'r Pwyllgor â'r UE.

e) Cadw llygad ar faterion perthnasol

Drwy ei rwydwaith o gysylltiadau ag Ewrop a thrwy Gymru gyfan, gall y Pwyllgor gadw llygad ar faterion sy'n berthnasol i Gymru a'i gwneud yn haws mynd i'r afael â'r materion hynny drwy sicrhau bod y pwyllgor pwnc perthnasol neu gyrff eraill yn ymwybodol ohonynt ac awgrymu strategaethau ar gyfer ymateb.

f) Rhoi cyngor strategol i'r pwyllgorau pwnc

Yn ogystal â chodi materion perthnasol gyda phwyllgorau pwnc penodol, gall aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd sicrhau bod y pwyllgorau pwnc y maent hefyd yn aelodau ohonynt yn cael gwybod am y cyd-destun Ewropeaidd a chynnal y trafod rhwng y pwyllgorau er mwyn sicrhau bod materion Ewropeaidd yn cael eu cydlynu.

**Cysylltiadau rhyngwladol**

13.Penderfynwyd y bydd staff o'r Is-adran Materion Ewropeaidd a Thîm Cysylltiadau Rhyngwladol yr Is-adran Datblygu Diwydiannol yn ffurfio Is-adran Materion Allanol newydd. Yn sgil yr ad-drefnu hwn cyfyd cwestiwn ynghylch a ddylai'r Pwyllgor geisio ehangu ei gylch gwaith er mwyn cynnwys materion allanol. Trafodir hyn ymhellach yn Atodiad C.

**Cydymffurfio**

14.Trafodir gweithgarwch y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 15. Er mwyn newid cylch gwaith y Pwyllgor, y tu hwnt i'r hyn a nodir yn RhS 15, byddai'n rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo cynnig i wneud hynny yn y Cyfarfod Llawn. Trafodwyd y mater â Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad ac mae'n fodlon ar yr

agweddau hynny sy’n ymwneud â chydymffurfio.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Ionawr 2001**